Y
Comisiwn
Etholiadol

# Taflen ffeithiau ar fynediad at y gofrestr etholiadol a'i chyflenwi ar gyfer pleidiau gwleidyddol

Mae gan bleidiau gwleidyddol, cynrychiolwyr etholedig ac ymgeiswyr hawl i gael copi o'r gofrestr etholiadol lawn at ddibenion penodol a bennir mewn deddfwriaeth fel y disgrifir isod.

Gallwch ofyn am (oni nodir yn wahanol yn y ddeddfwriaeth):

- rhannau perthnasol o'r gofrestr lawn
- unrhyw hysbysiad sy'n nodi newid i'r gofrestr
- y rhestr etholwyr tramor
- rhestrau o bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy (rhestrau o bleidleiswyr absennol).

Bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol (ERO) ar gyfer yr ardal etholiadol leol berthnasol i ofyn am y wybodaeth hon. Rydym wedi creu ffurflen gais enghreifftiol y gallwch ei defnyddio at y diben hwn.

Mae gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau mai dim ond i'r rhai sydd â hawl i'w derbyn at y dibenion penodol a bennir mewn deddfwriaeth y maent yn cyflenwi'r wybodaeth hon.

Er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn y wybodaeth rydych ei heisiau cyn gynted â phosibl, mae'n bwysig bod eich cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn glir ac yn gyflawn. Bydd hyn yn helpu i osgoi oedi a lleihau'r angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ofyn cwestiynau dilynol.

Mae'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn yn gymhleth ac mae rhai rheolau y mae'n rhaid i chi eu dilyn wrth ofyn am yr wybodaeth hon. Mae'r daflen ffeithiau hon yn crynhoi'r gofynion a'r cyfyngiadau deddfwriaethol, yn dibynnu ar eich rôl, ond dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun os ydych yn ansicr ynghylch eich hawl neu'r defnyddiau a ganiateir o'r wybodaeth.

Rhaid i chi ddinistrio'r wybodaeth yn ddiogel pan nad oes ei hangen mwyach at y diben a ganiateir. Mae cosb droseddol am gamddefnyddio'r wybodaeth.

## Pleidiau gwleidyddol cofrestredig

| | |
|---|---|
| **Yr hyn y gellir gofyn amdano** | Rheoliad 106, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.<br><br>Rheoliad 105, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001.<br><br>Y gofrestr etholiadol ar gyfer yr etholaeth gyfan, neu unrhyw ran ohoni sy'n dod o fewn yr ardal gofrestru etholiadol berthnasol, gan gynnwys unrhyw hysbysiad(au) o newid, y rhestr etholwyr tramor (lle bo'n berthnasol) a rhestrau pleidleisio absennol. |
| **Pryd a sut y gellir gofyn amdani** | Gallwch ofyn am y gofrestr gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.<br><br>Rhaid gwneud cais ysgrifenedig a nodi:<br><br>• y ddogfen/dogfennau y gofynnir amdani/amdanynt<br><br>• a yw'r cais yn gofyn am y gofrestr gyhoeddedig yn unig, neu a yw'n cynnwys hysbysiadau o newidiadau.<br><br>Oni bai eich bod yn gofyn fel arall, bydd y ddogfen/dogfennau yn cael ei chyflenwi/eu cyflenwi ar fformat data.<br><br>Er mwyn helpu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i brosesu eich cais, dylech nodi eich bod yn gofyn am y gofrestr ar ran plaid wleidyddol gofrestredig o dan Reoliad 106 (yng Nghymru a Lloegr) neu Reoliad 105 (yn yr Alban). Dylech gadarnhau enw cofrestredig y blaid wleidyddol, eich rôl mewn perthynas â'r blaid honno ac at ba ddiben y mae angen y wybodaeth arnoch. |
| **Cyfyngiadau ar fynediad** | Gall unrhyw berson a benodir gan y blaid ofyn am y gofrestr etholiadol. Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol ofyn am dystiolaeth i gadarnhau bod gennych ganiatâd i ofyn am y gofrestr ar ran y blaid. |
| **Defnyddiau a ganiateir o'r gofrestr** | O dan yr hawl hon, dim ond at ddibenion etholiadol ac at ddiben cydymffurfio â rheolaeth rhoddion y caniateir defnyddio'r gofrestr. Os ydych chi'n ansicr, dylech chi geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun. |

## Pleidiau etholaethol lleol

| | |
|---|---|
| **Yr hyn y gellir gofyn amdano** | Rheoliad 105, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.<br><br>Rheoliad 104, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001.<br><br>Y gofrestr etholiadol ar gyfer yr etholaeth gyfan neu unrhyw ran ohoni sy'n dod o fewn yr ardal gofrestru etholiadol berthnasol, gan gynnwys unrhyw hysbysiad(au) o newid, y rhestr etholwyr tramor (lle bo'n berthnasol) a rhestrau pleidleisio absennol. |
| **Pryd a sut y gellir gofyn amdani** | Gallwch ofyn am y gofrestr gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.<br><br>Rhaid gwneud cais ysgrifenedig a nodi:<br><br>• y ddogfen/dogfennau y gofynnir amdani/amdanynt<br><br>• a yw'r cais yn gofyn am y gofrestr gyhoeddedig yn unig, neu a yw'n cynnwys hysbysiadau o newidiadau<br><br>Oni bai eich bod yn gofyn fel arall, bydd y ddogfen/dogfennau yn cael ei chyflenwi/eu cyflenwi ar fformat data.<br><br>Er mwyn helpu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i brosesu eich cais, dylech nodi eich bod yn gofyn am y gofrestr ar ran plaid etholaeth leol o dan Reoliad 105 (yng Nghymru a Lloegr) neu Reoliad 104 (yn yr Alban). Dylech gadarnhau enw cofrestredig y blaid wleidyddol, eich rôl mewn perthynas â'r blaid honno ac at ba ddiben y mae angen y wybodaeth arnoch. |
| **Cyfyngiadau ar fynediad** | Dim ond **un person** all gael ei enwebu i ofyn am y gofrestr ar gyfer etholaeth benodol gan swyddog enwebu cofrestredig plaid wleidyddol gofrestredig. Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol ofyn am dystiolaeth i gadarnhau mai chi yw'r person enwebedig sydd â chaniatâd i ofyn am y gofrestr ar ran y blaid.<br><br>Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol wrthod unrhyw geisiadau dilynol a wneir gan berson gwahanol ar gyfer yr un blaid wleidyddol os yw person enwebedig eisoes wedi gofyn am y gofrestr. Os bydd y person enwebedig yn newid, dylech gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. |
| **Defnyddiau a ganiateir o'r gofrestr** | O dan yr hawl hon dim ond at ddibenion etholiadol ac at ddibenion cofrestru etholiadol y caniateir defnyddio'r gofrestr. Os ydych chi'n ansicr, dylech chi geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun. |

## Cynrychiolwyr etholedig

Mae hyn yn cynnwys: Aelodau Seneddol, Aelodau Senedd yr Alban, Aelodau Senedd Cymru, cynghorwyr lleol, Maer Llundain, aelodau Cynulliad Llundain, meiri etholedig a meiri awdurdodau cyfun/awdurdodau sirol cyfun a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

| | |
|---|---|
| **Yr hyn y gellir gofyn amdano** | Rheoliad 103, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.<br><br>Rheoliad 102, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001.<br><br>Y gofrestr etholiadol ar gyfer y rhan berthnasol o'r ardal etholiadol rydych chi'n ei chynrychioli, unrhyw hysbysiad(au) o newid, y rhestr etholwyr tramor (lle bo'n berthnasol) a rhestrau pleidleisio absennol sy'n berthnasol i'r ardal.<br><br>**Ar gyfer Aelodau Senedd yr Alban:**<br><br>Paragraff 3, Atodlen 1, Gorchymyn Senedd yr Alban<br><br>Fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr ac unrhyw hysbysiad o newid (ar gyfer yr hyn sy'n ymwneud â'ch etholaeth neu, o ran aelodau rhanbarthol, ar gyfer yr ardal gofrestru gyfan).<br><br>**Ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu:**<br><br>Paragraff 3, Atodlen 1, Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012<br><br>Y rhan berthnasol o'r gofrestr, unrhyw hysbysiad o newid, a rhestrau pleidleisio absennol ar gyfer yr ardal heddlu rydych chi'n ei chynrychioli. |
| **Pryd a sut y gellir gofyn amdani** | Gallwch ofyn am y gofrestr gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.<br><br>Rhaid gwneud cais ysgrifenedig a nodi:<br><br>• y ddogfen/dogfennau y gofynnir amdani/amdanynt<br><br>• a yw'r cais yn gofyn am y gofrestr gyhoeddedig yn unig, neu a yw'n cynnwys hysbysiadau o newidiadau<br><br>Oni bai eich bod yn gofyn fel arall, bydd y ddogfen/dogfennau yn cael ei chyflenwi/eu cyflenwi ar fformat data.<br><br>Er mwyn helpu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i brosesu eich cais, dylech nodi eich bod yn gofyn am y gofrestr o dan eich hawl fel cynrychiolydd etholedig a'r ddarpariaeth berthnasol, fel yr amlinellir uchod, a pha fath o gynrychiolydd etholedig ydych chi. |

| | |
|---|---|
| **Cyfyngiadau ar fynediad** | Dim ond y cynrychiolydd etholedig neu rywun y mae wedi'i benodi all ofyn am y gofrestr. |
| **Defnyddiau a ganiateir o'r gofrestr** | O dan yr hawl hon, dim ond at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r swydd y mae gennych hawl i'r gofrestr neu at ddibenion etholiadol. Os ydych chi'n ansicr, dylech chi geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun. |

## Ymgeiswyr

| | |
|---|---|
| **Yr hyn y gellir gofyn amdano** | Unwaith y byddwch yn dod yn ymgeisydd[1] yn swyddogol, mae gennych hawl i dderbyn copi am ddim o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol ar gyfer yr ardal etholiadol rydych yn ymgeisio ynddi. |
| **Pryd a sut y gellir gofyn amdani** | Gallwch ofyn am y gofrestr etholiadol a rhestrau o bleidleiswyr absennol gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar ôl i chi ddod yn ymgeisydd yn swyddogol.<br><br>Rhaid gwneud cais ysgrifenedig a nodi:<br><br>• y ddogfen/dogfennau y gofynnir amdani/amdanynt<br>• a yw'r cais am y rhestrau presennol yn unig, neu a yw'n cynnwys cais am y rhestrau terfynol<br><br>Oni bai eich bod yn gofyn fel arall, bydd y ddogfen/dogfennau yn cael ei chyflenwi/eu cyflenwi ar fformat data.<br><br>Bydd y fersiwn o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau y byddwch yn eu derbyn yn gyfredol ar yr adeg i chi wneud cais amdanynt. Gallwch hefyd ofyn am ddiweddariadau i'r cofrestrau etholiadol a'r rhestrau a gyhoeddir yn y cyfnod sy'n arwain at y bleidlais, gan gynnwys y rhestr o etholwyr cofrestredig newydd pan gaiff ei chyhoeddi bum diwrnod gwaith cyn y bleidlais. |

[1] Y cynharaf y gallwch ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad. Byddwch yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol ar y diwrnod hwn os byddwch eisoes wedi datgan eich bod yn ymgeisydd yn yr etholiad (neu os bydd rhywun arall wedi datgan eich bod yn ymgeisydd) ar neu cyn y dyddiad hwn.

| | |
|---|---|
| | Mae rhai etholiadau/refferenda yn cwmpasu mwy nag un ardal gofrestru felly efallai y bydd angen i chi wneud cais i bob ardal. |
| **Cyfyngiadau ar fynediad** | Rhaid i'r ymgeisydd gwblhau'r cais, ac eithrio yn achos rhestrau plaid fel mewn etholiadau Aelodau Llundain Awdurdod Llundain Fwyaf, etholiadau rhanbarthol Senedd yr Alban neu etholiadau Senedd Cymru lle mae'n rhaid i'r asiant etholiadol gwblhau'r ffurflen hon. |
| **Defnyddiau a ganiateir o'r gofrestr** | O dan yr hawl hon dim ond at ddibenion etholiadol a rheoli rhoddion y caniateir defnyddio'r gofrestr. Os ydych chi'n ansicr, dylech chi geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun. |

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys ffurflen gais enghreifftiol, ar gael yn ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid.

## Y gofrestr wedi'i marcio a'r rhestrau pleidleisio absennol wedi'u marcio

Mae'r cofrestrau etholiadol wedi'u marcio a'r rhestrau wedi'u marcio o bleidleiswyr absennol yn dangos pwy sydd wedi cael papur pleidleisio, pwy sydd wedi dychwelyd eu papur pleidleisio drwy'r post, a phwy sydd wedi cael pleidlais drwy ddirprwy wedi'i bwrw ar eu rhan mewn etholiad penodol.

| | |
|---|---|
| **Yr hyn y gellir gofyn amdano** | Rheoliad 117, Rhan 7, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.<br><br>Rheoliad 117, Rhan 7, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Yr Alban) 2001. |
| **Pryd a sut y gellir gofyn amdani** | Gallwch gael copïau o'r gofrestr etholwyr wedi'i marcio a rhestrau wedi'u marcio o bleidleiswyr absennol ar ôl yr etholiad os gwnewch gais ysgrifenedig i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.<br><br>Bydd y dogfennau y gofynnwyd amdanynt yn cael eu cyflenwi am ffi o £10 ynghyd â £2 am fersiynau printiedig a £1 am fersiynau data fesul 1,000 o gofnodion. |
| **Cyfyngiadau ar fynediad** | Dim ond am flwyddyn ar ôl yr etholiad y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cadw'r cofrestrau wedi'u marcio a'r rhestrau pleidleisio absennol wedi'u marcio, ac ar ôl hynny byddant yn cael eu dinistrio. |

| | |
|---|---|
| **Defnyddiau a ganiateir o'r gofrestr wedi'i marcio** | Dim ond at y dibenion a ganiateir a bennir yn y rheoliadau perthnasol, ac unrhyw amodau sy'n berthnasol i ddefnyddio'r gofrestr lawn, y caiff person sy'n cael copi o unrhyw ran o restr neu gofrestr wedi'i marcio o dan y rheoliad hwn ei defnyddio. Mae'r cyfyngiadau hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw un y mae'r gofrestr wedi'i chyflenwi iddo gan y person a gafodd gopi neu ran o'r gofrestr wedi'i marcio. |